BWLETIN

# MANTELL GWYNEDD

MEDI 2025




# O Wirfoddoli i'r Brifysgol

Ers mis Chwefror 2025, mae Simon o Abergwyngregyn wedi bod yn gwirfoddoli un bore'r wythnos draw yn siop elusen y Groes Goch ym Mangor. Mae'r hyn a ddechreuodd fel cam bach i wirfoddoli wedi tyfu'n daith ysbrydoledig o gyflawniad, datblygiad, a meithrin hyder.

Dechreuodd llwybr Simon i wirfoddoli gyda chefnogaeth gan Glyn o Wasanaeth Ieuenctid Gwynedd trwy ei annog i chwilio am gyfleoedd a fyddai'n helpu i fagu ei hyder a datblygu ei sgiliau cymdeithasol ar ôl gadael yr ysgol. Er mwyn ei gefnogi i ganfod lleoliad gwirfoddoli addas, cafodd Simon ei gyfeirio at Jordan o brosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli yn Mantell Gwynedd. Roedd darganfod rôl oedd yn medru cynnig strwythur clir i'w ddiwrnod, ac mewn awyrgylch croesawgar, yn rhai o anghenion pwysicaf ac na fyddai'n achosi gormod o straen arno.

Ers dechrau yn ei rôl, mae Simon wedi ymgymryd ag amrywiaeth o ddyletswyddau megis didoli rhoddion i baratoi arddangosfeydd yn y ffenest. Yn bwysicach fyth, mae ei annibynniaeth a'i hyder wedi tyfu'n gyson dros gyfnod byr iawn. Un o'r datblygiadau mwyaf nodedig yw ei allu i deithio ar ei ben ei hun ar fws o'i gartref i'r siop, rhywbeth nad oedd yn teimlo y gallai ei wneud ar ddechrau ei daith wirfoddoli.

Yn ddiweddar, mae ei ymrwymiad wedi cael ei gydnabod yn ffurfiol wrth iddo gyrraed carreg millitir trwy dderbyn tystysgrifau **25 awr** a **50 awr** trwy **Gynllun Gwirfoddoli Gwynedd**. Cyflawniad arwyddocaol sy'n tynnu sylw at ei ymroddiad a'i gyfraniad.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

01286 672 626
www.mantellgwynedd.com
ymholiadau@mantellgwynedd.com

# CANOLFAN GWIRFODDOLI

Yn sgil ei ddatblygiad trwy wirfoddoli, mae Simon wedi bod yn paratoi ar gyfer ei ddyfodol. Yn ddiweddar, mae wedi cael cynnig lleoliad gyda Phrifysgol Keele i astudio Ffiseg ac Astroffiseg. Er ei angerdd am wyddoniaeth, ar un adeg doedd ganddo ddim yr hyder i ystyried addysg uwch. Diolch i'w ymrwymiad, twf personol, mae bellach yn teimlo'n barod i gymryd y cam cyffrous mawr nesaf.

Wrth fyfyrio ar ei daith dros y flwyddyn ddiwethaf, dywed Simon:

***"Wnaeth Jordan o Mantell Gwynedd yr holl broses o ddod o hyd i gyfle gwirfoddoli addas yn esmwyth iawn. Mae yna lawer o bobl fel fi sydd eisiau dysgu sgiliau newydd, gwella hyder a iechyd meddwl, neu gyfrannu at gymdeithas ond sydd angen ychydig o hwb i'w helpu i ddechrau arni. Mae prosiect Gafael Llaw wedi bod yn wych wrth roi'r gefnogaeth a'r annogaeth yma i mi."***

Mae hanes Simon yn enghraifft bwerus o sut all wirfoddoli gyda'r gefnogaeth iawn ddatgloi potensial, meithrin hyder, ac agor drysau i gyfleoedd newydd cyffrous. Mae ei gyflawniadau yn dangos pa mor bell y mae wedi dod mewn cyfnod byr.












Prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli
Helping Hand to Volunteer Project

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

# CANOLFAN GWIRFODDOLI

RHEILFFORDD TALYLLYN RAILWAY

## Achlysur hanesyddol i Reilffordd Talyllyn

Ym mis Awst draw yn Nhywyn bu dathliad a dadorchuddiad swyddogol Wagen Powdwr Gwn newydd. Dyma brosiect a wnaed yn bosibl trwy Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd sy'n cael ei weinyddu gan Mantell Gwynedd.

Dyfarnwyd £5,000 i'r 'Grŵp Aelodau Ifanc' adeiladu *replica* ffyddlon o wagen powdwr gwn a ddefnyddiwyd ar y rheilffordd hon ar un adeg.
Ar ôl misoedd o ymroddiad, gwaith tîm, a chrefftwaith ymarferol, mae'r wagen yn barod am i deithio'r rheilffordd ac yn rhan balch iawn o dreftadaeth y rheilfford.

Llongyfarchiadau enfawr i'r holl wirfoddolwyr ifanc. Am ddwy flynedd, mae nhw wedi rhoi'u calonnau a'u hegni i ddod â'r darn arbennig hwn o hanes yn ôl yn fyw. Diolch i'w hangerdd bydd hanes un o reilffyrdd treftadaeth Gwynedd yn aros gyda ni am genedlaethau i ddod.










# CANOLFAN GWIRFODDOLI

## Mis Hydref

## RHWYDWAITH RHEOLWYR GWIRFODDOLI GWYNEDD VOLUNTEER MANAGER'S NETWORK




Gwefan Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales Website

16/10/2025
2.30pm-3.30pm
Ar lein / Online

MANTELL GWYNEDD

01286 672 626
gwirfoddoli@mantellgwynedd.com

## GRANT GWIRFODDOLWYR IFANC GWYNEDD 2025-26

**£5,240 ar gael**

Cyllid ar gyfer prosiectau sy'n cael eu harwain gan bobl ifanc, i bobl ifanc!

Cysylltwch am becyn cais neu am sgwrs

Dyddiad cau: 20/10/2025

gwirfoddoli@mantellgwynedd.com

MANTELL GWYNEDD

Gwirfoddoli Cymru Volunteering Wales



# Cynllun Cyfeillio Ffrindia' Newydd













**Ydych chi'n chwilio am gyfle gwirfoddoli ystyrlon? Ymunwch â ni!**

## Beth?

**Cyfeillio gydag unigolyn dros 50 sy'n teimlo'n unig**

## Pam?

**Dim ond awr neu ddwy yr wythnos ond mae'n gwneud gwir wahaniaeth i fywyd rhywun**

## Sut?

**Cysylltwch gyda'r Swyddog Prosiect!**

beca.gruffydd@mantellgwynedd.com
(01286) 672 626
www.mantellgwynedd.com

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

# Cynllun Cyfeillio Ffrindia' Newydd

## Ydych chi'n nabod rhywun sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig? Cysylltwch gyda ni!




## Beth?

Mae ein gwirfoddolwyr yn cynnig ychydig o gwmni a sgwrs gyfeillgar yn wythnosol

🚫Nid ydym yn darparu gofal bersonol, cymorth ariannol na chludiant







## Pwy?

Unigolion dros 50 oed sy'n byw yn ardal Arfon, Gwynedd sy'n profi unigrwydd




✉ beca.gruffydd@mantellgwynedd.com
📞 (01286) 672 626
🌐 www.mantellgwynedd.com

Mantell Gwynedd
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

# CANOLFAN GWIRFODDOLI

## Dyma Ni Befriending, prosiect Croeso Menai

**Mae Dyma Ni Befriending yn brosiect sy'n berthyn i Croeso Menai, gan gynnig cyfeillgarwch a chefnogaeth i rai sy'n ceisio lloches ac yn byw yma yng ngogledd orllewin Cymru.**





Mae rhai sy'n ceisio lloches yn gorfod byw mewn rhyw wagle am fisoedd, hyd yn oed blynyddoedd, cyn i benderfyniad gael ei wneud ar eu hachos. Yn ystod y cyfnod hwn ni chânt weithio fel arfer a £49.18 yr wythnos yn unig sydd ganddynt i fyw.

Mae'r rhethreg ar y cyfryngau a chan grwpiau gwrthwynebol yn aml yn elyniaethus, gydag agweddau negyddol, llidiog yn gyffredin. Y gwirionedd yw bod gan ein ffrindiau lawer i'w gynnig i'r DU – mae gwirfoddolwyr ynghyd â cheiswyr lloches yn elwa ar y cyswllt o'r ddwy ochr a ddarperir gan DNB ac yn ei fwynhau.
Mae'n broject sy'n atgyfnerthu statws Cymru fel Cenedl Noddfa.



Mae'n grŵp gwirfoddolwyr cyfeillgar yn cefnogi
2 sesiwn galw-heibio yrwythnos, teithiau cerdded ac ymweliadau, cyfeiriadauifanciau bwyd, sesiynau garddio (yn dymhorol),dysgu Saesneg a Chymraeg, cymorth i ddod o hydiddillad, eitemau cegin hanfodol, arweinbost i fynonellau cymorth iechyd, tai, addysga.y.b..

Gall gwirfoddolwyr ymrwymo i un neu ddau sesiwn y mis, ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol yn bennaf, neu maent yn gallu rhoi cymorth i'n tîm craidd drefnu gweithgareddau ychwanegol fel uchod.

CROESO MENAI

**Ar gyfer gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â Gwirfoddoli gyda**

ebost: dymanibefriending@gmail.com

07900 353043 WhatsApp: 07388 600528
Rhif Elusennol : 1186363

DYMA NI
HERE WE ARE

# IECHYD A LLESIANT




## Digwyddiadau yn mis Hydref

## Edrychwn ymlaen i'ch gweld!



# CRONFA URDDAS MISLIF

Sicrhau bod mynediad at gynnyrch mislif, sydd am ddim ac yn hygyrch yn y ffordd fwyaf ymarferol ac urddasol bosibl

**Ydych chi yn sefydliad cymunedol sydd eisiau darparu a dosbarthu cynnyrch mislif i'ch defnyddwyr?**

**I ddatgan diddordeb ac i drafod ymhellach, cysylltwch a ni;**

01286 679870

Urddasmislif@gwynedd.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNGOR GWYNEDD

# GRANTIAU

PAVO
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
Powys Association of Voluntary Organisations

PARTNERIAETH RHEILFFYRDD Y CAMBRIAN RAILWAY PARTNERSHIP

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

200 Years of Train Travel Since 1825

## CAMBRIAN RAILWAY PARTNERSHIP
# RAILWAY 200 GRANT

To mark the 200th anniversary of the modern railway, the Cambrian Railway Partnership has launched the **2025 Community Grant Fund**, offering financial support for projects that celebrate railway history and contribute to community development.

## ROUND TWO

**WITHIN 6 MILES OF A RAILWAY STATION ON THE CAMBRIAN LINE**

**AWARDS OF UP TO £500**

**OPEN TO COMMUNITY ORGANISATIONS, CHARITIES, CIC**

www.thecambrianline.co.uk/post/railway-200-grant-round-two

# GWYBODAETH

# Gweithdai AM DDIM ar gyfer y Sector Gwirfoddol a Chymunedol

Disclosure & Barring Service

**Ymunwch ar gyfres o weithdai am ddim a gyflwynir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer y Sector Gwirfoddol a Chymunedol yng Nghymru**

### 🔍Gweithdy Trosolwg DBS

📅 Maw 8 Gorff | 🕛 12:00–13:00
📅 Gwe 31 Hyd | 🕘 09:30–10:30

Deall gwiriadau'r Gwasanaeth DBS, gweithgaredd rheoleiddiedig, prosesau gwahardd a dyletswyddau atgyfeirio.

### 📋 Gweithdy Gwasanaeth DBS

📅 Mer 13 Awst | 🕙 10:00–11:30
📅 Mer 10 Rhag | 🕛 12:00–13:30

Ymchwiliad manwl i lefelau gwiriadau DBS, cymhwysedd, recriwtio diogel a'r Gwasanaeth Diweddaru

### 🚫 Gweithdy Gwahardd DBS

📅 Maw 14 Hyd | 🕙 10:00–11:30
📅 Maw 20 Ion | 🕛 12:00–13:30

Dysgwch pryd a sut i gyfeirio, Y llwybrau cyfeirio, a chanlyniadau diffyg gweithredu

### 📨 Gweithdy Casglu Gwybodaeth y Gwasanaeth DBS

📅 Maw 25 Tach | 🕐 13:00–14:30
📅 Maw 10 Chwef | 🕚 11:00–12:30

Deall eich dyletswydd gyfreithiol i rannu gwybodaeth a'r ddeddfwriaeth y tu ôl iddi.

### 🔄 Gweithdy Gwasanaeth Diweddaru DBS

📅 Mer 17 Rhag | 🕛 12:00–13:30
📅 Maw 24 Chwef | 🕙 10:00–11:30

Dysgwch sut i ddefnyddio'r Gwasanaeth Diweddaru i symleiddio recriwtio.

### 📫 Gweithdy Gwasanaeth Atgyfeirio Gwahardd y Gwasanaeth DBS

📅 Gwener 12 Rhagfyr | 🕙 10:00–11:00
📅 Mawrth 17 Chwefror | 🕐 13:00–14:00

Sesiwn ffocws ar ddyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio a gwneud atgyfeiriadau effeithiol.

### ⚠️ Gweithdy Ymddygiad Niweidiol y Gwasanaeth DBS

📅 Maw 11 Tach | 🕙 10:00–11:30
📅 Mer 4 Chwef | 🕚 11:00–12:30

Archwilio ymddygiad niweidiol, risgiau diogelu, a gwneud atgyfeiriadau gwahardd.

### ✅ Pam mynychu?

- Canllaw penodol i'r sector
- Gwella arferion diogelu
- AM DDIM i fynychu
- Rhwydweithio a rhannu arferion da

📩 Llefydd cyfyngedig ar gael- archebwch heddiw isod:

🔗 Archebwch yma

# Digwyddiad Rhwydweithio

## Cefnogi llais pobl ifanc yn ardal Dwyfor!

### Y nod

Cysylltu gweithiwyr proffesiynol lleol, gweithwyr ieuenctid, gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol sy'n ymgysylltu a phobl ifanc 11-25 i:

- Rhannu syniadau
- Datblygu cysylltiadau
- Cryfhau llais pobl ifanc
- Dysgu mwy am y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc leisio eu barn, cael eu clywed a chreu newid

### Pam dod?

- Cwrdd ag eraill
- Rhannu syniadau
- Cefnogi llais pobl ifanc
- Paned a sgwrs

**22.10.25**

**Clwb Pêl-droed, Pwllheli**

**10yb-12.30yp**

**Cadarnhau presenoldeb** - e-bostiwch rachel.griffith@barnardos.org.uk

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

RHIFAU COFRESTRU'R ELUSEN 216250 A SC037605
BARNARDO'S REGISTERED CHARITY NOS. 216250 AND SC037605